Beibl i Blant
yn cyflwyno

Amser caled i Iesu

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus addaswyd gan: M. Maillot; Sarah S. Alastair Paterson

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Pan gafodd Iesu ei fedyddio, dywedodd Duw “Hwn ydy fy Mab annwyl i; mae wedi fy mhlesio i'n llwyr.”

Daeth
yr Ysbryd
Glân i lawr
ar Iesu fel
colomen.

Yn fuan iawn wedyn,
fe wnaeth yr Ysbryd
Glân arwain Iesu i'r
anialwch. Doedd
neb gyda'r Iesu.

Wnaeth Iesu ddim bwyta am bedwar deg diwrnod. Erbyn y diwedd roedd yn llwgu.

Mae'r Beibl yn dweud fod yna anifeiliaid gwyllt yno hefyd.

Daeth Satan yno
i demtio Iesu.

Bell, bell yn ôl roedd wedi temtio Adda ac Efa i fod yn anufudd i Dduw yng ngardd Eden. Iesu oedd yn cael prawf nawr.

Roedd Satan hyd yn oed am demtio Iesu, Mab Duw.

"Os wyt ti'n Fab Duw,
gwna i'r garreg yma
droi'n dorth o fara"
meddai'r diafol.

Roedd yn gwybod
fod Iesu eisiau bwyd.
Roedd yn gwybod fod
Mab Duw yn gallu troi
cerrig yn fara.

Fyddai Iesu yn barod i ufuddhau i'r diafol?

Na! Gwrthododd Iesu wrando ar y diafol. Yn lle hynny, rhoddodd ateb o Air Duw.



“Nid bwyd ydy'r unig beth mae pobl ei angen i fyw”.

Yna aeth Satan ag Iesu i ddinas fawr Jerwsalem, i'r deml lle roedd pobl yn addoli Duw.

Beth oedd y diafol am ei wneud nesaf?

"Os wyt ti'n Fab Duw," meddai'r diafol, "neidia i lawr o'r fan yma. Mae'r ysgrythurau sanctaidd yn dweud y bydd angylion Duw yn dy achub di."

"Na!" meddai Iesu. "Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud hefyd: 'Paid rhoi'r Arglwydd dy Dduw ar brawf."

Fe wnaeth y diafol drio eto.
Dyma fe'n ei arwain i le
uchel y tu allan i'r ddinas.

Dangosodd holl wledydd
y byd iddo mewn eiliad,
yna dywedodd, "Fe gei
di reoli'r rhain i gyd, os
gwnei di fy
addoli i."

“Dos i ffwrdd Satan!”
meddai Iesu, ...

... "mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud: 'Addola'r Arglwydd dy Dduw, a'i wasanaethu e'n unig.'"

Dyma'r diafol yn gadael Iesu.

Yna anfonodd Duw angylion i ofalu am Iesu ei Fab - a wrthododd ufuddhau i'r diafol.

Amser caled i Iesu

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Mathew 4, Luc 4

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16